

Cofnodion



Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2023

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr W Routley (Cadeirydd), J Cleverly, C Townsend, T Watkins, P Bright, B Davies, P Drewett, D Jenkins, M Pimm, A Screen and M Al-Nuaimi

Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu), Sarah Davies (Deputy Chief Education Officer), Robert Green (Assistant Head of Finance), Sally Ann Jenkins (Strategic Director - Social Services), Natalie Poyner (Head of Children Services), Mary Ryan (Head of Adults Services) and Caroline Ryan-Phillips (Head of Prevention and Inclusion)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

1 Ymddiheuriadau

Dim.

2 Datganiadau o ddiddordeb

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Derbyniwyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022 yn gofnod gwir a chywir.

4 Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Gyllideb 2023-24

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol drosolwg byr.

Cwestiynau

Holodd aelod pam mae'r rhagolygon chwyddiant yn uwch na'r hyn a ragwelwyd o'r blaen i'r blynyddoedd nesaf.

- Nododd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod chwyddiant yn cael ei ragweld gan gydnabod ei fod yn dal yn debygol o fod yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y bydd y mater o chwyddiant uchel yn cael ei waethygu am fwy nag un flwyddyn yn unig gan ei bod yn debygol y bydd cynnydd pellach mewn costau a bydd cyllid yn gostwng.

Gofynnodd aelod a oedd unrhyw ymgynghoriadau wedi bod gyda'r ysgolion ynghylch cynigion.

- Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol wrth yr aelod bod trosolwg o'r gyllideb wedi'i rhoi i ysgolion ac aelodau o'r undebau yn ystod yr wythnos flaenorol yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion. Mae'r fforwm hwn yn cynnwys trawstoriad eang o randdeiliaid a fydd yn cyfrannu'n ffurfiol at yr ymgynghoriad os ydynt yn dymuno, ond gall unrhyw ysgol neu unigolyn hefyd ychwanegu at yr ymgynghoriad fel rhan o'r broses.

Gofynnodd yr aelod wedyn am y pwysau gwahanol sy'n wynebu ysgolion fel costau ynni yn cynyddu, ac a fyddai unrhyw fylchau cyllideb yn ystod y flwyddyn yn cael eu llenwi.

- Nododd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod y pwyntiau hyn hefyd yn cael eu trafod yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion uchod. Mae ysgolion yn deall pa elfennau sy'n cael eu hariannu yn y cynigion, a pha rai a fyddai'n cael eu hamsugno gan ysgolion. Ni fyddai'r codiadau hyn yn ystod y flwyddyn yn cael eu talu, ond byddai'r Cabinet yn penderfynu ar y costau i'w talu wrth fynd.

Gofynnodd aelod a allai Penaethiaid Gwasanaeth roi cyd-destun ynghylch effaith ddisgwyliedig y cynigion ar drigolion Casnewydd.

- Amlinellodd Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd yna effeithiau anochel o arbedion arfaethedig, ond y ffocws yw gwella effaith yr arbedion y mae angen i ni eu gwneud wrth weithio mor effeithiol ag y gallwn.

Cynigion Buddsoddi:

Holodd aelod y bwch ariannu mewn perthynas â Phrosiect Aspire.

- Rhannodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant fanylion am y cynlluniau i ailfodelu ac ailsefydlu'r prosiect uchelgeisiol i symud ymlaen o'r trefniant etifeddiaeth presennol, a'i wneud yn fwy diogel drwy nodi ffrydiau cyllido gydag Addysg. Ar hyn o bryd, mae trefniant ad-hoc rhwng addysg a gwasanaeth ieuencid ond bod angen trefniant mwy cadarn ar waith Gan gynnwys edrych ar ddarparwr amgen sy'n gallu goruchwyllo'r contract yn ei gyfarwydd, yn hytrach na'r trefniant ad-hoc presennol.

Gofynnodd aelod am fwy o wybodaeth am y cynnig ynghylch staff Anghenion Dysgu Ychwanegol, a sut y byddai hyn yn effeithio ar leoedd ADY yn ysgolion Casnewydd.

- Rhoddodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol wybod i'r aelod bod cyllid yn dod o ffynonellau drwy grantiau, fodd bynnag, nid yw'n glir faint o gyllid grant fydd ar gael yn y flwyddyn nesaf

Gofynnodd aelod pe bai gostyngiad mewn lleoedd ADY, ble byddai'r plant hynny'n cael eu lleoli?

- Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol nad oedd cynlluniau i leihau lleoedd ADY.

Gofynnodd aelod am eglurhad ynghylch gordaliadau technegol Budd-dal Tai.

- Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol wrth y pwyllgor fod hyn oherwydd ei fod yn uwch na'r drothwy dderbyniol o ran gwallau mewn hawliadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac roedd yn rhaid gwneud rhywfaint o gynllunio i sicrhau bod arian ar gael i dalu costau lle eir y tu hwnt i'r trothwyau. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo i geisio aros o fewn y trothwyau, ond nid yw rhai pethau bob amser o fewn rheolaeth y Cyngor.

Gofynnodd aelod a oedd tanariannu wedi achosi problem.

- Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod y gofyniad i gartrefu pawb yn ddrud pan oedd yn rhaid defnyddio adnoddau fel gwely a brecwast i ateb galwadau cynyddol ar y gwasanaeth. Nododd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol nad yw'r cyllid a geir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hanesyddol yn talu costau llawn pobl dai, sy'n arwain

at fwllch mewn ariannu llety, yn enwedig yn achos llety dros dro. Pwysleisiodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol nad pwysau newydd oedd hwn, ond mae'r bwllch rhwng Lwfansau Tai Lleol a osodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r gwir gostau mewn tai yn rhywbeth y mae angen mynd i'r afael ag ef. Roedd rhywfaint o gymorth ychwanegol yn ystod covid, ond mae'r costau uchel hyn o dai brys yn parhau.

•

Gofynnodd aelod beth oedd yn cael ei wneud i leihau'r trothwy o dan y £600,000. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod yr adran budd-daliadau wedi symud a bydd newidiadau i'r trefniadau. Mae llawer o waith yn mynd i mewn i reoli pwysau'r gyllideb trwy wella prosesau. Mae'r tîm dan bwysau eithafol gan eu bod hefyd yn gweinyddu llawer o grantiau a chynlluniau yn ychwanegol at hawliadau HB.

Gofynnodd aelod a yw'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gweithio gyda Chartrefi Dinas Casnewydd i fynd i'r afael â phwysau tai dros dro.

- Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a landlordiaid preifat ar ddulliau strategol, ond hefyd mewn gwaith o ddydd i ddydd. Mae hyn yn berthnasol mewn Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a mwy. Mae'r cysylltiadau hyn yn bodoli.

Nododd y Cadeirydd fod oedi mewn taliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i wasanaethau tai a budd-daliadau, a gofynnodd am ragor o wybodaeth i gael ei darparu i'r pwyllgor.

Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion eisiau tynnu sylw at bwysigrwydd yr ystod o bartneriaethau sydd yno i sicrhau, wrth i anghenion pobl ddatblygu, bod modd eu cadw yn eu cartrefi, sy'n ddull effeithiol o atal digartrefedd.

Cynigion Arbedion:

CS2324/04 - Ailfodelu oaklands a darpariaeth Seibiant Byr

Gofynnodd aelod beth fyddai'r effaith ar blant, rhieni maeth, a gwasanaethau ehangach yng Nghasnewydd oherwydd yr arbedion arfaethedig i gymorth seibiant Oaklands.

- Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Plant mai'r bwriad yw lleihau'r effaith ar y gwasanaeth drwy leihau yn hytrach na pheidio â darparu'r gwasanaeth. Nodwyd y bydd y Gwasanaeth Cymdeithasol yn archwilio opsiynau eraill ar gyfer cyllid os a phan fo'n bosibl ceisio ailgyflwyno lefelau uwch o ddarpariaethau. Mae'r gwasanaeth yn lleihau yn hytrach nag yn cau, ac os bydd arian arall ar gael, er enghraifft drwy LIC, bydd y ddarpariaeth yn cael ei diwygio yn unol â hynny. Cydnabu'r Pennaeth Gwasanaethau Plant y byddai yna effaith, ac eglurodd y byddai'n wasanaeth dan arweiniad anghenion yn y dyfodol.

Mynegodd aelod bryder ynghylch y gostyngiad mewn gwasanaethau seibiant byr, a dywedodd aelod arall o'r pwyllgor fod y gwasanaeth yn achubiaeth i rai defnyddwyr gwasanaeth, felly ni ddylid atal y gwasanaeth.

Dywedodd aelod y byddai'r gostyngiad yn y gwasanaeth a ddarperir gan Oaklands yn arwain at bwysau cost uwch mewn ardaloedd eraill lle gallai rhai plant orfod mynd i ofal llawn amser, a gallai'r costau hyn a ddangosir hefyd effeithio ar wasanaethau ieuchyd.

Gofynnodd aelod sut olwg fyddai ar ddarpariaeth y ganolfan yn y senario orau, ac a ddylid ystyried gwirfoddolwyr i gynnal lefelau presennol o wasanaeth.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant wrth y pwyllgor nad cau'r Oaklands yw'r cynnig, ond lleihau'r cynnig o ran nifer y nosweithiau sydd ar gael. Mae'r rhain yn weithlu medrus iawn sy'n cynnig lefel arbenigol o ofal, felly byddai angen i unrhyw wirfoddolwyr fod yn gymwys i'r lefel hon er mwyn cefnogi'n effeithiol. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Plant mai'r cynnig oedd darpariaeth o ddydd Llun i ddydd Iau o 19 lle i 11.
- Nododd y Cadeirydd ei fod yn 21 i 11 lle.

Mynegodd y pwyllgor bryder cryf am yr effaith ar breswylwyr oherwydd gostyngiad yn y gwasanaethau yn y cynnig arbedion gwasanaethau yn yr Oaklands a gwasanaethau seibiant byr. Roedd y pwyllgor yn pryderu am yr effaith nid yn unig ar y trigolion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, ond y preswylwyr a oedd yn gallu maethu gyda chymorth y gwasanaeth hwn ac yn teimlo y gallai gael effaith ar nifer y gofalwyr maeth yng Nghasnewydd. Roedd y pwyllgor hefyd yn teimlo y byddai effaith ariannol hir dymor oherwydd pwysau cynyddol mewn meysydd eraill fel y gwasanaeth gofal a'r gwasanaeth iechyd. Argymhellodd y pwyllgor y dylid adolygu hyn a'i ailystyried.

CS2324/05 - Staffio Gwasanaethau Plant

Gofynnodd aelod beth oedd yn ei olygu o ran lleihau staff.

- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant wrth y pwyllgor y byddai swyddi gwag yn cael eu dileu fel yr opsiwn cyntaf, fel rhan o bolisi diogelwch swyddi'r Cyngor.
- Roedd y Cyfarwyddwr Strategol yn hyderus y gellid cyflawni'r arbediad hwn fel hyn.

AS2324/01 - Contractau oedolion; Gwasanaethau a gomisiynwyd

Mynegodd aelod bwysigrwydd y gwasanaeth Growing Space i drigolion Casnewydd, a holodd beth fyddai'n digwydd i'r bartneriaeth Growing Spaces.

- Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod cyfraniad sylweddol wedi'i wneud i'r bartneriaeth gan y Cyngor, y cynigiwyd ei leihau. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth y pwyllgor y byddai'r gwasanaeth yn parhau drwy ffrydiau cyllido eraill gyda llai o gyfraniad gan y Cyngor. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y byddai'r gwasanaeth yn parhau ond ar lefel is.
- Holodd yr aelod a fyddai'r gwasanaeth yn gallu parhau i weithio o Dŷ Tredegar.
- Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mai dyma fyddai penderfyniad Growing Space gan y byddai'n parhau i weithredu gyda newid mewn capasiti.

Nododd aelod bod cyfarfodydd wedi eu cynnal lle cyflwynwyd effaith toriadau i gyllid ar Growing Space.

Gofynnodd aelod am eglurhad ynghylch yr ariannu ar gyfer Growing Space ac a allai'r Cyngor gynorthwyo'r elusen i sicrhau cyllid ychwanegol i bontio unrhyw fylchau.

- Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion nad oedd yn gynnig hawdd i'w gyflwyno ond bod y Cyngor yn ceisio lliniaru'r cynnig, megis trwy berthynas â gwasanaethau iechyd meddwl. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth y pwyllgor y byddai hyn yn cael ei gefnogi wrth symud ymlaen mewn perthynas â'u helpu i sicrhau cyllid grant pellach lle bo hynny'n bosibl.

Pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd cefnogi mentrau lleol.

Pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd Growing Spaces a chododd ei bryder yn gryf yr effaith y byddai cyfyngu ar y gwasanaeth yn ei chael ar drigolion sydd angen defnyddio'r gwasanaethau hyn. Mynegodd y pwyllgor bryder pellach am yr effaith y byddai lleihau'r gwasanaeth yn ei chael ar gyllid a gwasanaethau yn y dyfodol fel y sectorau iechyd a gofal. Argymhellodd y pwyllgor y dylid adolygu hyn a'i ailystyried.

AS2324/04 - Gwasanaeth seibiannau byr i oedolion hŷn (a elwid gynt yn gyfleodd dydd)

Teimlai aelod y byddai gostyngiad o £500,000 mewn cyllid yn cael effaith ddifrifol ar y gwasanaeth seibiannau byr.

Gofynnodd aelod am eglurhad ynghylch a oedd hyn yn cyfeirio at Gerddi'r Gwanwyn.

- Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ei fod yn ymwneud ag Atodiad Spring Gardens, nid y cartref preswyl.
- Gofynnodd aelod a fyddai'r rhan honno o Spring Gardens yn cau'n gyfan gwbl ar yr un pryd.
- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth y pwyllgor y byddent yn ceisio lliniaru drwy ddefnyddio rhan o'r cartref preswyl neu rywbeth arall o bosibl. Atgoffodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor fod hyn allan i ymgynghori er sylwebaeth gyhoeddus.

Gofynnodd aelod sut y bydd gofalwyr yn cael eu cefnogi ar ôl y toriadau hyn.

- Sicrhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y pwyllgor y byddent yn parhau i weithio gyda gofalwyr a phawb sy'n mynychu seibiannau byr gan fod ganddynt hawl i wasanaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth y pwyllgor y byddai lliniaru yn cael ei wneud drwy fynd yn ôl i edrych ar sut arall y gellid cefnogi'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn unigol.

Pwysleisiodd aelod ei fod yn credu y bydd trigolion yn dioddef yn drwm o ganlyniad i'r toriadau hyn.

- Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor fod pawb yn gweithio i wneud arbedion yn wyneb amgylchiadau anodd, gan ddeall ar yr un pryd y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Strategol yr anhawster yn y cynnig hwn ond pwysleisiodd fod gwaith yn cael ei wneud gyda theuluoedd ar lefel unigol i sicrhau y byddai'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen yn cael eu darparu.

Roedd y pwyllgor yn bryderus iawn am y cynnig arbed ynghylch y gwasanaeth seibiannau byr i oedolion hŷn (a elwid gynt yn gyfleoedd dydd). Roedd y pwyllgor yn teimlo y byddai'r gostyngiad yn cael effaith ddifrifol ar y gwasanaeth a phawb sy'n ei ddefnyddio.

Argymhellodd y pwyllgor i hyn gael ei adolygu a'i ailystyried gan fod y cynnig arbed yn rhy fawr.

EDU2324/05 - Cynnig Cynilion Seicoleg Addysgol

Gofynnodd aelod a oedd digon o seicolegwyr addysg.

- Nododd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol fod prinder seicolegwyr addysg yn genedlaethol. Cydnabu'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol er y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith ar allbwn, er enghraifft, gwaith ataliol, mae digon o gapasiti staff ar ôl i gwblhau gofynion statudol.

Gofynnodd y Cadeirydd, os oes angen gwasanaethau ychwanegol ar ysgolion, sut y cyflawnir hyn.

- Dywedodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol wrth y pwyllgor fod tîm o seicolegwyr addysg, ond y gallai ysgolion unigol geisio cymorth pellach pe bai ganddynt yr arian i wneud hynny.

Ffioedd a Chostau

Holodd aelod beth oedd y cyfiawnhad dros godi costau.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor fod cysylltiad uniongyrchol rhwng y rhain a chost gwasanaethau oherwydd chwyddiant.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol i'r pwyllgor na fyddai'r costau uwch hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr hyn y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau yn ei dalu.

5 Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau

Roedd y pwyllgor yn gwerthfawrogi bod penderfyniadau anodd i'w gwneud o ystyried yr hinsawdd bresennol.

Gofynnodd y pwyllgor am ragor o wybodaeth yn esbonio'r oedi rhwng costau a ysgwyddwyd a'r taliadau Adran Gwaith a Phensiynau a dderbyniwyd gan y Cyngor.

Pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd Growing Spaces a chododd ei bryder yn gryf am yr effaith y byddai cyfyngu ar y gwasanaeth yn ei chael ar drigolion sydd angen defnyddio'r gwasanaethau hyn. Mynegodd y pwyllgor bryder pellach am yr effaith y byddai lleihau'r gwasanaeth yn ei chael ar gyllid a gwasanaethau yn y dyfodol fel y sectorau iechyd a gofal. Argymhellodd y pwyllgor y dylid adolygu hyn a'i ailystyried.

Mynegodd y pwyllgor bryder cryf am yr effaith ar breswylwyr oherwydd gostyngiad yn y gwasanaethau yn y cynnig arbedion gwasanaethau yn yr Oaklands a gwasanaethau seibiant byr. Roedd y pwyllgor yn pryderu am yr effaith nid yn unig ar y trigolion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, ond y preswylwyr a oedd yn gallu maethu gyda chymorth y gwasanaeth hwn ac yn teimlo y gallai gael effaith ar nifer y gofalwyr maeth yng Nghasnewydd. Roedd y pwyllgor hefyd yn teimlo y byddai effaith ariannol hirdymor oherwydd pwysau cynyddol mewn meysydd eraill fel y gwasanaeth gofal a'r gwasanaeth iechyd. Argymhellodd y pwyllgor y dylid adolygu hyn a'i ailystyried.

Roedd y pwyllgor yn bryderus iawn am y cynnig arbed ynghylch y gwasanaeth seibiannau byr i oedolion hŷn (a elwid gynt yn gyfleoedd dydd). Roedd y pwyllgor yn teimlo y byddai'r gostyngiad yn cael effaith ddifrifol ar y gwasanaeth a phawb sy'n ei ddefnyddio.

Argymhellodd y pwyllgor i hyn gael ei adolygu a'i ailystyried gan fod y cynnig arbed yn rhy fawr.

6 Adroddiad Cynghorydd Craffu

Mynegodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Strategol fod camau gweithredu rhagorol o gyfarfodydd blaenorol a bod angen y wybodaeth y gofynnodd y pwyllgor amdani cyn diwedd tymor y cyfarfodydd.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol i'w ddarparu cyn gynted â phosibl.

Cyflwynodd y Cynghorydd Craffu y Cynllun Gweithredu a'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - 28 Chwefror 2023 am 10am

7 Digwyddiad Byw

[Gellir gweld recordiad y cyfarfod yma.](#)

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified